| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | 14 Chwefror 2013 |
| TEITL: | Bidiau Refeniw a Chyfalaf |
| PWRPAS: | Ystyried yr argymhellion parthed cyllido'r bidiau |
| GWEITHREDIAD: | Craffu'r argymhellion parthed cyllido'r bidiau |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella |
| AELODAU CABINET: | Arweinydd y Cyngor |

**1. Cefndir**

1.1 Fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2013/14, mae'r Cyngor yn gwahodd bidiau refeniw a chyfalaf. Pwrpas y papur hwn yw adrodd ar ganlyniad gwaith blaenoriaethu'r bidiau hynny. Yn unol â'r fframwaith cynllunio busnes, mae'r bidiau wedi eu hadnabod gan y gwasanaethau wrth iddynt ystyried eu blaenoriaethau a chynlluniau gwasanaeth blynyddol.

1.2 Eto eleni, yn wyneb y sefyllfa ariannol ddychrynllyd o heriol,gwahoddwyd bidiau o dan y **categori anorfod** yn unig, sef "*gwariant anorfod i gadw gwasanaeth ar ei lefel bresennol neu ymateb i ofynion deddfwriaethol newydd sylweddol na all yr Adran eu cyfarfod.* Argymhellir cymeradwyo bidiau am ddwy swydd newydd yn unig.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried bidiau a oedd yn cyd-fynd â'r diffiniad **anorfod** yn unig.

1.4 Fe dderbyniwyd bidiau nad oedd yn cyd-fynd â'r diffiniad gan eu bod yn ddatblygol eu natur. Un enghraifft oedd bid gan yr Adran Addysg am Gydlynydd Siarter Iaith. Fe fydd y bidiau datblygol perthnasol yn cael eu hystyried yn ddiweddarach o fewn y drefn o ddatblygu Cynllun Strategol newydd y Cyngor ac fe fydd yr argymhellion ariannu hynny yn mynd gerbron y Cyngor Llawn ym mis Mai.

**2. Y Broses Blaenoriaethu**

Yn dilyn y gwahoddiad gwreiddiol, derbyniwyd bidiau refeniw cyfwerth a £ 2,410,373 (parhaol), a £ 714,200 (unwaith ac am byth), ynghyd a bidiau cyfalaf o £1,003,600.

Fel y gwelir ar y taenlenni sydd ynghlwm, mae'r symiau yr argymhellir eu cyllido fel a ganlyn:

Bidiau Refeniw Parhaol – £1,265,980

Bidiau Refeniw unwaith ac am byth - £394,250

Bidiau Cyfalaf - £435,000

Amlinellir isod y prif gamau yn y broses ar gyfer blaenoriaethu'r bidiau:-

- asesiad agoriadol o’r holl fidiau a gyflwynwyd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, er sicrhau mai dim ond bidiau anorfod oedd yn cael ystyriaeth.
- yr Adran Strategol a Gwella, yn seiliedig ar y manylion a gyflwynwyd a thrafodaethau pellach gyda’r gwasanaethau, yn paratoi argymhellion ac adroddiad drafft o ran blaenoriaethu a chyllido’r bidiau
- y Tîm Rheoli yn ystyried papur yr Adran Strategol a Gwella a chytuno argymhellion.
- Y Panel Strategaeth Ariannol yn ystyried yr argymhellion.
- Ymgynghori â’r Grŵp Busnes ar yr argymhellion
- Y Pwyllgor Archwilio, Cabinet y Cyngor a’r Cyngor llawn i ystyried a mabwysiadu’r Strategaeth Ariannol, y blaenoriaethau a ffynonellau cyllido yn eu cyfarfodydd yn Chwefror a Mawrth 2013.

## 3. Argymhellion.

Gofynnir i aelodau’r Pwyllgor Archwilio ystyried y daenlen sydd ynghlwm:

(i) yr argymhellion parthed cyllido’r bidiau refeniw sydd yn cael eu hystyried yn anorfod a’r bidiau na argymhellir eu cyllido o fewn y gyfundrefn bidiau am y rhesymau a nodir - **Atodiad A**

(ii) Rhestr o’r bidiau cyfalaf a dderbyniwyd, a’r argymhellion parthed cyllido’r bidiau - **Atodiad B.**